

Gwybodaeth i Gleifion

Wfeitis Blaen y Llygaid/Llid yr Iris

Yr Uned Llygaid

Beth yw wfeitis blaen y llygaid (llid yr iris)?

Mae wfeitis blaen y llygaid (llid yr iris) yn gyflwr llidiol sy'n effeithio ar flaen y llygad (o amgylch yr iris - rhan lliw eich llygad). Bydd un o bob tri chlaf yn cael pyliau rheolaidd. Er ei fod fel arfer yn effeithio ar un llygad ar y tro, gall effeithio ar y ddwy llygad mewn rhai achosion. Gall wfeitis blaen y llygaid fod yn aciwt neu'n gronig. Gall wfeitis blaen y llygaid aciwt fod yn gyflwr poenus a gall pob wfeitis, os na chaiff ei drin, effeithio ar eich golwg.

Beth sy'n achosi wfeitis blaen y llygaid?

Yn achos dros hanner y cleifion, ni ellir dod o hyd i unrhyw achos. Yn achos rhai cleifion mae'n gysylltiedig â chyflyrau llidiol eraill, anhwylderau imiwnedd, neu heintiau.

Beth yw symptomau wfeitis blaen y llygaid aciwt?

Efallai y bydd gennych lygad coch dolurus a phoenus a bydd y symptomau'n gwaethygu mewn golau llachar. Gall symptomau wfeitis blaen y llygaid ddatblygu'n gyflym (dros ychydig oriau) neu'n fwy graddol (dros nifer o ddyddiau).

Beth yw symptomau wfeitis blaen y llygaid cronig?

Gydag achosion o wfeitis blaen y llygaid cronig (llid yr iris), gall y llygad fod yn ddi-boen ac ni fydd yn goch mwyach. Gall y golwg fod yn aneglur neu efallai na fydd unrhyw symptomau o gwbl.

Sut mae wfeitis blaen y llygaid yn cael ei drin?

Mae wfeitis blaen y llygaid yn cael ei drin gyda diferion llygaid. Fel arfer rhoddir hyd at dri math o ddiferion i chi, ond mae'r swm yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r llid. Os ydych chi'n cael diferion ymlediad, sy'n gwneud cannyll eich llygad yn fwy ac yn ymlacio'r iris, efallai y byddwch chi'n fwy sensitif i olau ac yn profi golwg aneglur. Gall hyn hefyd effeithio ar eich gallu i yrru. Bydd y diferion steroid yn cael eu lleihau'n raddol dros gyfnod o amser. Ni ddylech stopio'ch diferion yn sydyn gan y gallai hyn achosi i'r llid ddigwydd eto.

Beth ydw i'n ei wneud os yw'r wfeitis blaen y llygaid yn digwydd eto?

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n profi pwl o wfeitis blaen y llygaid, mae'n bwysig ymweld ag optegydd lleol cyn gynted â phosibl. Peidiwch â dechrau triniaeth flaenorol nes bod y pwl yn cael ei gadarnhau. Mae gennym rwydwaith o optegwyr sy'n rhagnodi yn y gymuned a all gychwyn triniaeth a'ch monitro drwy'r amser. Mewn achosion arbennig o ddifrifol, neu os yw'n dychwelyd dro ar ôl tro, efallai y cewch eich cyfeirio at wasanaeth llygaid yr ysbyty.

Am gyngor neu ragor o wybodaeth:

Clinig Llygaid Brys – Ffôn 01633 238856

E-bost: emergencyeyeclinik.abb@wales.nhs.uk

Adran Cleifion Allanol y Llygaid, Bloc E, Ysbyty Brenhinol Gwent, Heol Caerdydd, Casnewydd, NP20 2UB

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**